***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 1100

# Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016

## RHAN 2

### Paneli Apelau Cofrestru

**Amcanion cyffredinol paneli apelau cofrestru**

**4.**—(1) Amcanion cyffredinol panel apelau cofrestru wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag achosion apelau cofrestru yw—

(a) diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd;

(b) hybu a chynnal—

(i) hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol(**1**), a

(ii) safon uchel o ymddygiad ac ymarfer ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol; ac

(c) ymdrin â'r achos yn deg ac yn gyfiawn.

(2) Mae ymdrin ag achos yn deg ac yn gyfiawn yn cynnwys—

(a) ymdrin â'r achos mewn ffyrdd sy'n gymesur â phwysigrwydd yr achos, cymhlethdod y materion, y costau disgwyliedig ac adnoddau'r partïon;

(b) osgoi ffurfioldeb diangen a cheisio sicrhau hyblygrwydd yn yr achosion;

(c) sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, fod y partïon yn gallu cymryd rhan lawn yn yr achosion;

(d) defnyddio unrhyw arbenigedd arbennig y panel neu GCC yn effeithiol;

(e) osgoi oedi, i'r graddau y mae hynny'n gydnaws â rhoi ystyriaeth briodol i'r materion.

(**1**) *Gweler* adran 79 o'r Ddeddf am ystyr "gweithiwr gofal cymdeithasol".